## Gweddi am y Deml a'r Ddysgeidiaeth

O Arglwydd ein Duw, gwyddom nad wyt yn trigo mewn teml o waith ein dwylo, ond eto diolchwn am gyfraniad pob teml i drosglwyddo dy neges a'th ddaioni i fyd dy blant. A diolchwn am bwysigrwydd y Deml i weinidogaeth ddaearol Iesu, ac am iddo fynnu adfer yr adeilad i'w briod waith o fod yn ganolfan i weddi ac ymgysegriad, addoliad ac astudiaeth o'r Ysgrythurau.

Diolch hefyd am ddysgeidiaeth ac awdurdod Iesu. Cofiwn iddo ateb y dyrfa gan ddweud wrthynt fod gan Fab y Dyn awdurdod i faddau pechodau ar y ddaear. Dywedodd hynny wrth aml un. Iachawyd y gŵr a fu'n dioddef am flynyddoedd. Nid rhyfedd fod y dyrfa yn rhyfeddu. Yn wir, yr oedd y wyrth o iacháu yng Nghapernaum yn profi tu hwnt i bob dirnadaeth bod ganddo awdurdod i faddau pechodau. Dyna ddirgelwch mawr y Duwdod. Duw-ddyn oedd Iesu yn y Deml fel ym mhob man arall.

Diolchwn heddiw am y modd y deliodd Iesu â'i wrthwynebwyr yn y Deml. Ni fynnai ei wrthwynebwyr wrando arno. Maddau i ninnau, O Dad, ein bod yn aml yn ddigon tebyg iddynt. Cyflawni dy waith Di a wnâi Iesu. Ein cri ni yw am gael adnabod y Gŵr sy'n Geidwad enaid i bob un ohonom.

'O diolch am Gyfryngwr,
Gwaredwr cryf i'r gwan;
O am gael ei adnabod,
fy Mhriod i a'm rhan,
fy ngwisgo â'i gyfiawnder,
yn hardd gerbron y Tad,
a derbyn o'i gyflawnder
wrth deithio'r anial wlad.'

Gwisgir ni oll fel pechaduriaid â chyfiawnder pur Iesu Grist, ac yn y wisg hon yr ydym yn dderbyniol gerbron Duw'r Tad. Dyro i'r neges hon gael ei seinio'n gyson ledled y ddaear o fewn pob teml sy'n gartref i'n haddoliad i Dduw yng Nghrist.

Yn ei Enw. Amen.